Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gwndy

**Pennyfarthing Lane**
**Gwndy**
**Casnewydd**
**Sir Fynwy**
**NP26 3LZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gwndy

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gwndy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 378 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 275 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 55 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 5.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/05/2023 |
| * | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gwndy yn ysgol fywiog a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae'r pennaeth ymroddgar wedi sefydlu ethos hynod gadarnhaol, sy'n seiliedig ar ddiwylliant o hunanfyfyrio, disgwyliadau uchel a chynhwysiant. Mae arweinwyr a staff yn darparu lefelau eithriadol o dda o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn adnabod pob disgybl fel unigolyn, ac yn darparu cymorth ychwanegol sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus, pan fo'n briodol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm a chynnydd hynod gryf o ran gwella'u medrau gwrando a siarad. Mae'r ysgol yn meithrin ethos Cymreig uchelgeisiol lle caiff y Gymraeg a'i diwylliant eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae pob un o'r staff yn datblygu'r Gymraeg yn rhagweithiol ac yn ymgorffori'r Gymraeg yn fedrus mewn gwersi bob dydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus. Maent yn llawn cymhelliant i siarad yn ystod gwersi Cymraeg, o gwmpas yr ysgol ac yn y cartref.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos eu bod yn ystyriol o'i gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n cymryd rhan mewn grwpiau arwain yn gwrando ar farn a syniadau pobl eraill yn effeithiol ac yn gwneud gwelliannau defnyddiol i'r ysgol wrth ymateb. Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu difyr lle mae pob un o'r disgyblion yn profi ystod o weithgareddau diddorol, yn cynnwys chwaraeon neu ddysgu chwarae offeryn. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau uniongyrchol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae staff yn cadw disgyblion iau yn eistedd wrth ddesgiau neu ar y carped am gyfnod rhy hir. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli diddordeb ac yn methu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu trwy chwarae ac archwilio.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion iau yn derbyn cydbwysedd effeithiol rhwng profiadau dysgu dan gyfarwyddyd oedolyn a phrofiadau dysgu wedi'u harwain gan y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â'i darpariaeth hynod effeithiol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymuned yr ysgol, a thu hwnt.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol ac yn cyflawni'n gadarnhaol yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd ac yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn hynod lwyddiannus. Maent yn mynegi eu hunain yn glir ac yn cyfleu eu meddyliau a'u syniadau yn hyderus. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn esbonio'u dealltwriaeth o gylch bywyd iâr fach yr haf yn glir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn adeiladu ar y cynnydd hwn yn dda, gan ddefnyddio geirfa dechnegol mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn cymryd rhan mewn trafodaeth ag aeddfedrwydd, sy'n eu cynorthwyo i ddadansoddi a myfyrio ar eu meddyliau a'u syniadau yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Mae disgyblion iau yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym ac yn eu cyfuno'n gywir i ddarllen geiriau syml. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn llwyddiannus, ac erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen testunau syml â rhuglder a brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ymgysylltu ag ystod o destunau gan ddangos lefel ddofn o ddealltwriaeth. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u gwybodaeth am leoliad stori i ddeall, ac empatheiddio â chymhellion cymeriad.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn ysgrifenwyr soffistigedig. Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgysylltu'n bwrpasol ag ystod o gyfleoedd creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Maent yn dechrau deall diben ysgrifennu yn dda, er enghraifft pan fyddant yn creu labeli defnyddiol ar gyfer llysiau sy'n tyfu yn yr ardd. Wrth i ddisgyblion wneud cynnydd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn amrywiaeth o genres, yn aml gan ddangos ymwybyddiaeth gref o gynulleidfa. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu â brwdfrydedd ac yn ennyn diddordeb y darllenydd yn llwyddiannus gyda defnydd uchelgeisiol o eirfa, atalnodi a gramadeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau ysgrifennu estynedig yn gynhwysfawr ac yn cymhwyso'r rhain yn dda ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau Cymraeg cryf y maent yn eu cymhwyso mewn ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau. Maent yn llawn cymhelliant i siarad yn ystod gwersi Cymraeg, o gwmpas yr ysgol ac yn eu cartref. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ehangu eu medrau Cymraeg yn systematig, gan adeiladu ar eu gwybodaeth yn raddol. Wrth iddynt symud trwy flynyddoedd cyntaf yr ysgol, maent yn defnyddio patrymau iaith cynyddol soffistigedig yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau cynaledig yn dda, er enghraifft pan fyddant yn siarad am eu bywyd teuluol. Mae disgyblion hŷn yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwynhau'r her i gyfieithu agweddau ar eu hadroddiadau cronolegol o'r Saesneg i'r Gymraeg yn llwyddiannus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn effeithiol ac yn cymhwyso’u gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn cyfrif fesul pump wrth gyfrifo gwerth eu siartiau cyfrif. Erbyn Blwyddyn 3, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd nodiant degol ac yn defnyddio’r wybodaeth hon yn bwrpasol wrth gyfrifo’r newid sydd ei angen o £10.00. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn galw ffeithiau rhif hysbys i gof ac yn defnyddio’r rhain yn effeithlon wrth ddatrys problemau. Maent yn cyfrifo canrannau ac yn troi ffracsiynau yn ddegolion â chywirdeb. Mae lleiafrif o fathemategwyr hyderus yn modelu eu dulliau dewisol i gyfoedion ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth am eu heffeithiolrwydd.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn feddylgar i gwestiynau pwrpasol sy’n cael eu gofyn gan staff. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cynnig syniadau synhwyrol wrth ystyried sut maent yn gwybod a yw hi’n ddydd neu’n nos. Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn cymhwyso’u medrau datrys problemau yn dda wrth iddynt arbrofi â gwahanol gyfeintiau o ddŵr i ddod o hyd i’r maint mwyaf cost-effeithiol o botelaid ar gyfer eu gwerthiant lemonêd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion iau yn tynnu ffotograffau ac yn eu cadw mewn ap gydag ychydig o gymorth. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn cymhwyso’u medrau digidol yn bwrpasol i gyfoethogi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ystod prosiect gwyddoniaeth, maent yn creu ffilmiau, yn creu taenlenni, ac yn dehongli ystod o ddata o graffiau’n llwyddiannus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu medrau creadigol a chorfforol yn dda. Mae disgyblion iau yn defnyddio ystod o ddeunyddiau naturiol ar raddfa fawr, wrth iddynt ddylunio darluniau sensitif i fynegi gwahanol emosiynau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn creu gwaith celf o safon uchel gan ddefnyddio offer â gofal mawr. Er enghraifft, maent yn defnyddio offeryn cerfio i dorri eu dyluniadau anifail print leino â manwl gywirdeb.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae safon lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn saff o fewn ei hamgylchedd eithriadol o ofalgar. Maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar eu pryderon ac yn delio ag unrhyw broblemau a allai godi, yn sensitif.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder mawr yn eu hysgol. Maent yn gweithio ac yn chwarae gyda’i gilydd yn hapus, a bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn trin eu cyfoedion, staff, ac ymwelwyr gyda pharch. Mae disgyblion hŷn yn dangos lefelau uchel o ofal ar gyfer disgyblion iau. Er enghraifft, maent yn eu helpu i gael amser chwarae difyr trwy sgyrsiau cefnogol neu’n eu hannog i ymuno â gemau.

Mae disgyblion yn cymryd eu rôl yn ddifrifol iawn yn y grwpiau arwain niferus. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau rhyngbersonol ac arwain allweddol yn llwyddiannus wrth iddynt ymgymryd â rôl weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn cyflwyno blychau awgrymiadau i annog disgyblion i rannu eu syniadau am unrhyw

welliannau posibl y gellid eu gwneud. Mae hyn yn arwain at newid cadarnhaol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn derbyn eu crysau chwys ymadawyr yn gynharach yn y flwyddyn, gan roi cyfle estynedig iddynt eu gwisgo yn y dosbarth. Mae ychydig o grwpiau llais y disgybl yn chwarae rôl strategol mewn cynnal yr ysgol. Er enghraifft, mae 'Ysbiwyr Dysgu' ('Learning Spies') yn cymryd rhan mewn monitro ansawdd y ddarpariaeth ac yn nodi camau defnyddiol ar gyfer gwella, y maent yn eu rhannu yn hyderus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol. Maent yn sgwrsio'n fedrus am eu dysgu a'u cynnydd. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch at syniadau disgyblion eraill wrth weithio mewn grwpiau bach neu barau. Maent yn ymgysylltu'n bwrpasol ag ehangder y profiadau a gynigir, ac yn canolbwyntio'n dda am y rhan fwyaf o'r amser, ar y cyfan.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i holi ac adborth effeithiol gan oedolion, ac o ganlyniad, yn gwybod sut i wneud gwelliannau i'w gwaith, gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Os byddant yn wynebu anhawster, maent yn gwybod beth i'w wneud i ddod o hyd i ateb. Mae hyn yn cynnwys myfyrio, galw i gof, a chymhwyso'u gwybodaeth flaenorol yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn tywys ei gilydd â'u gwaith yn llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn atgoffa ffrind i ysgrifennu llythyr y ffordd gywir. Mae disgyblion hŷn yn adolygu gwaith ei gilydd yn hyderus yn rheolaidd. Maent yn rhoi sylwadau ysgrifenedig ac adborth llafar defnyddiol. Er enghraifft, maent yn awgrymu y dylai un o'u cyd-ddisgyblion ddefnyddio seren i esbonio'r eirfa dechnegol yn ei ffeil ffeithiau. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i wneud gwelliannau buddiol i'w gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn meddu ar ddealltwriaeth dra datblygedig o Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig, er enghraifft yr hawl i gael addysg. Maent yn deall y daw cyfrifoldebau ochr yn ochr â hawliau. Er enghraifft, maent yn esbonio bod ganddynt gyfrifoldeb i ganiatáu i ddisgyblion eraill yn y dosbarth ddysgu yn ystod gweithgareddau annibynnol, trwy beidio â tharfu arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn meddu ar ddealltwriaeth dda o effaith eu gweithredoedd ar yr amgylchedd. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd ailgylchu ac yn meddwl yn greadigol am ddyfeisiau a allai amddiffyn yr haen osôn. Mae disgyblion iau yn dysgu gwerthfawrogi a gofalu am y byd naturiol, er enghraifft pan fyddant yn tyfu hadau pwmpen neu'n dysgu am y dirywiad ym mhoblogaeth gwenyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Maent yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn adnabod llawer o ffrwythau sy'n dda iddynt, fel ciwi a mango, ac yn esbonio ei bod yn afiach bwyta gormod o felysion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol â brwdfrydedd. Maent yn gwneud defnydd da o'r ystod eang o offer sydd ar gael iddynt yn ystod amser chwarae, fel treiciau a racedi tennis, sy'n eu helpu i gadw'n heini a mwynhau gweithgarwch corfforol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir i ddatblygu cwricwlwm dilys sy'n ennyn ymgysylltiad yr holl ddisgyblion yn dda, ac yn diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae staff medrus yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n hyrwyddo pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gwersi'n adeiladu'n raddol ar fedrau disgyblion, gan eu galluogi i wneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cyflwyno profiadau dysgu difyr sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Er enghraifft, yn ystod testun am wenyn, mae disgyblion yn trafod y gostyngiad yn niferoedd gwenyn yn wybodus ac yn ystyried sut i ddarparu amgylchedd sy'n addas ar gyfer gwenyn ar dir yr ysgol. Mae oedolion yn ystyried safbwyntiau disgyblion wrth gynllunio darpariaeth i sicrhau eu bod yn ymateb i'w diddordebau, ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn cynnig darpariaeth gyfoethog dan do a'r tu allan sy'n helpu disgyblion i ddysgu'n effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio gorsaf dywydd yn bwrpasol i adeiladu ar eu medrau rhifedd a llythrennedd wrth fesur glawiad, cyfrifo gorchudd o gymylau ac ysgrifennu adroddiadau ar y tywydd.

Agwedd ragorol ar y cwricwlwm yw'r ymagwedd hynod effeithiol at ymgysylltu â chymuned yr ysgol i siarad Cymraeg. Mae arweinwyr yn meithrin ethos cryf lle caiff datblygiad treftadaeth a diwylliant Cymru a'r Gymraeg eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol ac yn ei hymgorffori'n fedrus mewn gwersi bob dydd. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae staff yn annog defnydd o'r Gymraeg gartref yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynd â llyfr dosbarth a masgot Draig Goch adref gyda nhw i gofnodi digwyddiadau teuluol gan ddefnyddio geirfa Gymraeg benodol. Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda staff a disgyblion ar draws yr ysgol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn rhannu 'ymadrodd y foment' gyda rhieni ac yn gwahodd ysgolion o'r ardal leol i weld eu harfer hynod effeithiol. Mae'r proffil uchel a roddir i'r Gymraeg ar draws yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau disgyblion a'u mwynhad o'r iaith.

Mae gan staff berthnasoedd gweithio rhagorol â disgyblion. Mae hyn yn creu ethos cynnes a gofalgar ar draws yr ysgol, sy'n cefnogi dysgu'n dda. Mae'r addysgu'n diwallu anghenion disgyblion unigol yn llwyddiannus. Mae staff cymorth gwybodus a chymwys yn gweithio'n fedrus gyda disgyblion, ac fe gaiff hyn effaith ar eu cynnydd ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gwersi sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu cyfarwyddiadau a disgwyliadau clir i sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu llawer o weithgareddau ysgogol sy'n herio pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau uniongyrchol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, mae gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn yn rheoli, ac mae staff yn cadw disgyblion ifanc yn eistedd wrth ddesgiau neu ar y carped yn rhy hir. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli diddordeb ac yn methu cyfleoedd gwerthfawr i arwain eu dysgu eu hunain trwy chwarae ac archwilio.

Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu. Maent yn nodi unrhyw fylchau mewn dysgu yn effeithiol ac yn defnyddio strategaethau asesu o ddydd i ddydd yn systematig i wella deilliannau dysgu ar gyfer disgyblion. Mae adborth llafar ymarferwyr yn ystod gwersi a gweithgareddau yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella'u gwaith. Mae hyn yn annog disgyblion i ddyfalbarhau a llwyddo yn eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i herio meddwl disgyblion ac asesu dealltwriaeth. Maent yn darparu cyfleoedd hynod effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain, a dysgu eu cyfoedion. O'r dosbarthiadau ieuengaf, mae staff yn annog disgyblion i feddwl am beth maent wedi'i ddysgu, a sut gallant wella.

Mae'r ysgol yn darparu ystod ysgogol o brofiadau dysgu ychwanegol trwy ddefnyddio clybiau allgyrsiol a darparwyr allanol. Maent yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau yn y celfyddydau mynegiannol yn gynyddol. Er enghraifft, mae disgyblion dosbarth derbyn yn dysgu chwarae'r ffidil yn bersain, a disgyblion hŷn yn datblygu medrau ar chwarae offerynnau taro a medrau dawns yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau cerddorol yn dda ac yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn perfformiadau dosbarth ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae arweinwyr a staff yn gweithio ag ymroddiad i ddarparu lefelau eithriadol o dda o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn meithrin perthnasoedd cynnes a gofalgar â disgyblion, yn eu hadnabod yn dda ac yn gweithio'n ystyriol i ddarparu cymorth sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn hynod fuddiol. Mae arweinwyr wedi datblygu strategaeth les sy'n ategu diwylliant gofalgar ac anogol yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio ystod o ddulliau sy'n sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn saff. Er enghraifft, mae 'cyswllt' defnyddiol bob dydd yn annog disgyblion i gyfleu sut maent yn teimlo, a'r cymorth dilynol yn eu helpu i reoli eu hemosiynau. Mae staff yn addysgu disgyblion hŷn ynglŷn â thechnegau anadlu a strategaethau ar gyfer meddwl yn gadarnhaol, sy'n cyfrannu'n dda at wella'u hunan-barch a'u hyder. Caiff disgyblion iau gyfleoedd i brofi effeithiau lleddfol natur, er enghraifft pan fyddant yn gorwedd ar y glaswellt i wrando ar yr adar yn canu. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a moesegol disgyblion. Mae'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu trwy addoli ar y cyd a gweithgareddau ystafell ddosbarth yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain yn effeithiol.

Mae darpariaeth a ystyriwyd yn ofalus yn sicrhau bod lles disgyblion unigol yn ffocws canolog i waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod amgylchiadau unigryw ei disgyblion, ac yn ymdrechu i ddarparu cymorth wedi'i deilwra'n benodol i'w hanghenion unigol, pan fo'n briodol. Caiff y mentrau hyn effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad a gwydnwch disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn gweithio'n agos gyda sefydliad gofalwyr ifanc i ddarparu gweithgareddau anogaeth a chyfoethogi rheolaidd ar gyfer gofalwyr ifanc yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn teimlo'u bod yn cael cymorth da, ac mae ychydig ohonynt wedi gallu rhannu eu profiadau â chymuned yr ysgol yn ystod gwasanaeth.

Mae'r Cydlynydd ADY, a gefnogir gan dîm o staff sy'n llawn cymhelliant, yn sicrhau darpariaeth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod. Mae gan yr ysgol systemau cadarn i nodi disgyblion ag ADY a sicrhau eu bod yn derbyn y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn cael cynlluniau addysgol defnyddiol, sy'n nodi targedau penodol a chyflawnadwy. Mae gan bob un o'r disgyblion broffiliau un dudalen sy'n helpu staff i'w hadnabod a'u deall yn dda. Mae gwaith effeithiol gydag asiantaethau allanol yn sicrhau bod disgyblion ag ADY yn derbyn unrhyw ddarpariaeth arbenigol ychwanegol sydd ei hangen arnynt.

Mae tîm ymroddgar o staff cymorth yn darparu rhaglen o ymyriadau ar gyfer disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd, pan fydd angen. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod yr ymyriadau hyn yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael mynediad at y rhaglenni hyn yn gwneud cynnydd effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cryf i ddisgyblion ymuno â grwpiau arweinyddiaeth. Mae staff yn sicrhau eu bod yn bwrpasol ac yn cynnwys disgyblion mewn adolygu a gwella agweddau ar fywyd ysgol. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo disgyblion yn y grŵp 'Heddlu Bach' i chwarae rôl arwyddocaol mewn hyrwyddo diogelwch ar y ffordd y tu allan i gatiau'r ysgol. Mae hyn yn ehangu ar ethos yr ysgol i hyrwyddo diwylliant diogelwch yn dda iawn.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, fel codio, gwnïo a phêl-rwyd. Mae'r clybiau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu medrau newydd a magu hyder. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n mynychu'r clwb seiclo wedi datblygu eu medrau'n llwyddiannus, ac erbyn hyn, gallant gymryd rhan mewn taith feicio fuddiol mewn grŵp o fewn yr ardal leol.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella cyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion. Ceir diwylliant cryf o ddiogelu o fewn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar gyfer yr ysgol a'i chymuned. Mae hi'n arwain yr ysgol yn bwrpasol ac yn hyrwyddo ethos hynod gadarnhaol ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr wedi creu gweledigaeth glir ar gyfer addysg a lles ei holl aelodau, staff a disgyblion, fel ei gilydd. Mae'r weledigaeth wedi'i seilio'n gadarn ar ddiwylliant o hunanfyfyrio, disgwyliadau uchel a chynhwysiant, ac fe gaiff ei gweithredu'n llwyddiannus gan bob un o'r staff.

Ceir ethos tîm sefydledig ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion pob un o'r disgyblion. Maent yn gweithio'n angerddol a gydag ymroddiad. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog ac ysgogol. Mae arweinwyr wedi creu ymdeimlad cryf o ymreolaeth sy'n cefnogi'r ethos hwn. O ganlyniad, mae staff yn teimlo bod ganddynt lais ac

wedi'u grymuso i arloesi a rhoi cynnig ar syniadau newydd er mwyn gwella profiadau dysgu ar gyfer disgyblion heb ofni methu.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o weithgareddau monitro trylwyr i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn gywir. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i lywio'u safbwyntiau. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi barn yr holl randdeiliaid. Er enghraifft, mae arweinwyr yn gofyn i ddisgyblion a rhieni am eu barn am agweddau ar fywyd ysgol yn rheolaidd. Mae disgyblion hŷn a grwpiau cynrychioliadol fel y 'Criw Cymraeg' yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i fonitro gwaith yr ysgol, fel gwerthuso amgylcheddau dysgu a rhoi adborth buddiol i athrawon dosbarth. Mae'r cydweithio pwrpasol hwn yn cefnogi'r ysgol yn ei hymdrech i hunanwella. Mae arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau o'r prosesau hunanwerthuso yn effeithiol i lywio datblygiad cynllun gwella'r ysgol.

Mae dysgu proffesiynol yn effeithiol yn datblygu medrau a gwybodaeth staff ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion penodol yr ysgol a'i disgyblion. Mae gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae athrawon yn gweithio'n gynhyrchiol mewn trioedd yn arsylwi addysgu ei gilydd ac yn ymgymryd â deialog broffesiynol werthfawr er mwyn mireinio a gwella'u harfer er budd pob un o'r dysgwyr. Yn ddiweddar, mae staff wedi dechrau gweithio'n agos gydag ysgol leol i rannu agweddau cryf ar addysgu a dysgu oddi wrth ei gilydd. Maent yn ymweld ag ysgolion ei gilydd i graffu ar lyfrau ac amgylcheddau dysgu. Mae staff o Ysgol Gynradd Gwndy wedi rhannu eu harfer dda wrth greu ymagwedd gadarnhaol at addysgu'r Gymraeg.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus, yn effeithiol ac wedi ymrwymo i gefnogi'r ysgol. Mae cyfarfodydd rheolaidd i drafod cyllid a datblygu'r cwricwlwm, yn ogystal ag ymweliadau cyson, yn galluogi llywodraethwyr i gryfhau eu dealltwriaeth o'r safonau a gyflawnir ac ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn herio'n synhwyrol fel ffrindiau beirniadol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn goruchwylio bwyta ac yfed yn iach yn addas, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rôl mewn diogelu. Maent yn monitro gwariant ac effaith adnoddau'r ysgol yn ddarbodus. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth yn dda wrth ymateb i heriau ariannol. Er enghraifft, aethant i'r afael â diffyg sylweddol yn y gyllideb yn effeithlon. Ar hyn o bryd, mae llywodraethwyr yn lleihau gwarged mewn ffordd sy'n sicrhau adnoddau o ansawdd da ar draws yr ysgol i ymestyn y profiad dysgu ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, fel gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a chynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Maent yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau cynnydd da mewn ystod eang o fedrau, ac mae hyn yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys eu lles. Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn dyrannu adnoddau i ddiwallu anghenion yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, y mae arweinwyr yn ei ddefnyddio'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am ddatblygiadau'r ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio negeseuon e-bost rheolaidd a gwasanaethau negeseua

electronig i gyfathrebu’n effeithiol. Yn ychwanegol, mae staff ac uwch arweinwyr yn cyfarfod â rhieni yn ystod amseroedd gollwng a chasglu plant i gynnal cysylltiad agos â rhieni a gofalwyr. O ganlyniad, mae llawer o rieni’n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu’n dda ac yn eu hystyried eu hunain yn aelodau pwysig o gymuned yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2023